the audience agency

Pecyn cais

Rheolwr Cyfrif - Cymru (ar gyfer cyfnod mamolaeth)

Am The Audience Agency

Cenhadaeth a Phwrpas

Rydym yn credu bod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chael cyfleoedd i fod yn greadigol yn bwysig i'n lles a'n gwydnwch personol. Mae mynediad gwirioneddol gyfartal i'r cyfleoedd hyn yn fater o gyfiawnder cymdeithasol. Mae'n bwysig wrth adeiladu cymdeithas decach, cymunedau cryfach, adfywio teg a newid dinesig cadarnhaol. Mae sector diwylliannol tecach, mwy cyfartal hefyd yn gyfoethocach, yn fwy cynaliadwy ac yn fwy perthnasol.

Ein cenhadaeth yw llywio a meithrin yr ymddygiadau sydd eu hangen ar sefydliadau diwylliannol a chreadigol i ddod yn ddemocrataidd a pherthnasol, megis defnyddio tystiolaeth gadarn a data yn foesegol a hyderus, cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar bobl, gallu arloesi a chydweithredu.

Ein pwrpas yw defnyddio ein data, a'n gwybodaeth i helpu'r sector i:

- gyrraedd mwy o bobl a mynd i'r afael â chydraddoldeb mynediad.
- cynnig cyfleoedd creadigol mwy perthnasol
- adeiladu mwy o gymunedau a lleoedd creadigol

Gwerthoedd

Pobl yn Gyntaf

Credwn mewn rhoi pobl yng nghanol y genhadaeth a'r cynllun. Rydym yn ceisio canolbwyntio ar y defnyddiwr, hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl, a rhoi ein pobl ein hunain yn gyntaf. Rydym yn cefnogi sefydliadau i wneud mwy gyda ac ar gyfer y bobl sydd bellaf oddi wrth gyfleoedd.

Agored a Hygyrch

Rydym yn ceisio cynnwys a pharchu gwahaniaeth yn ein gwaith gyda chynulleidfaoedd, cleientiaid a staff. Rydym yn blaenoriaethu gwaith fel y gall gweithgarwch diwylliannol fod yn fwy cynhwysol. Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion data agored.

Cysylltiedig

Gweithio ar y cyd ar draws ein rhwydwaith yw'r hyn sy'n ein gwneud ni'n arbennig. Rydym yn buddsoddi mewn partneriaethau i sicrhau cydlyniad, effaith a rhannu'r dysgu.

Dibynadwy

Ein nod yw bod yn dryloyw a chywir, gweithredu gyda chyfrinachedd ac anelu at ganlyniadau cadarn. Adlewyrchir ein hymrwymiad i ansawdd yn ein siarter a'n safonau.

Yr hyn a Wnawn

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol i'w helpu i ddeall eu cynulleidfaoedd, datblygu eu strategaeth a gwerthuso eu gweithgareddau.

Rydym hefyd yn gweithio o fewn yr economi greadigol ehangach ar ddatblygu strategaeth a pholisi diwylliannol mwy hirdymor.

Rydym yn gwneud hyn trwy gyfuniad o wasanaethau ac adnoddau wedi'u paratoi'n barod ac ymchwil ac ymgynghoriaeth bwrpasol.

Mae ein gwaith yn cydnabod y dylai ymgysylltu corfforol a digidol gael ei wreiddio'n strategol a bod angen y gallu a'r sgiliau ar sefydliadau i ddeall modelau hybrid o gyflawni ac ymgysylltu.

Ni yw datblygwyr a gwarcheidwaid Audience Finder, y gwasanaeth a'r adnodd cenedlaethol ar ddata cynulleidfaoedd, sydd am ddim, ac sy'n fodd i sefydliadau ddeall, cymharu a chymhwyso gwybodaeth am y gynulleidfa.
https://www.theaudienceagency.org/about-us

Cyd-destun

Mae rôl Pennaeth Cymru yn yr Audience Finder yn adlewyrchu pwysigrwydd Cymru yn strategaeth y dyfodol TAA a'r portffolio cynyddol o waith prosiect o fewn sector diwylliannol Cymru.

Mae hon yn rôl amrywiol a heriol sy'n gofyn am ddealltwriaeth gadarn o ddefnyddio data a gwybodaeth wrth adeiladu partneriaethau strategol, strategaeth y gynulleidfa a chreu lleoedd. Yn y rôl hon bydd angen ymgynghori a chydweithredu helaeth, gan weithio gyda chleientiaid a chydweithwyr TAA i fabwysiadu, addasu a chymhwyso adnoddau TAA.

Swydd dros dro yw hon ar gyfer cyfnod mamolaeth, mae'r meysydd canlyniadau allweddol isod wedi cael eu blaenoriaethu ar sail pwysigrwydd.

Pwrpas y Swydd

- Datblygu busnes yr Audience Agency yng Nghymru a sicrhau bod blaenoriaethau ac anghenion strategol sefydliadau a chyllidwyr yng Nghymru yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer y wlad honno.

- Hyrwyddo persbectif Cymru o fewn diwylliant sefydliadol TAA, gan sicrhau y cydymffurfir â pholisi Llywodraeth Cymru a bod gwaith TAA i'r un graddau â mannau eraill.
- Cyflawni'n uniongyrchol unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Celfydyddau Cymru yng Nghymru, ac adrodd ar y gwasanaeth hwnnw.

Meysydd Canlyniadau Allweddol

Swyddog Arweiniol Cymru

- Casglu gwybodaeth am y materion, yr heriau a'r cyfleoedd yn y sector creadigol a diwylliannol yng Nghymru i helpu i lywio'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu, ei gyfathrebu a'i weithredu yng Nghymru.
- Gweithredu fel prif swyddog arweiniol ar gyfer cyswllt rhwng cleient/defnyddwyr TAA yng Nghymru, gan gefnogi defnyddwyr (yn unigol neu mewn grwpiau cydweithredol a rhwydweithiau) i ddefnyddio dull sy'n cael ei yrru fwyfwy gan ddata a hwyluso cyswllt ehangach.
- Arwain ar y berthynas rhwng TAA a Chyngor Celfyddydau Cymru, deall eu strategaeth bresennol ac yn y dyfodol, gan gyfrannu at y strategaeth honno lle bo hynny'n briodol gyda thystiolaeth ac ymchwil.
- Rheoli a chyflawni cynllun cyllido Audience Insight Wales a gweithgarwch ehangach, o fewn fframwaith y cytunwyd arno.
- Cynrychioli The Audience Agency yn allanol i gleientiaid, partneriaid strategol, cyllidwyr a llunwyr polisi yng Nghymru yn ôl y galw, er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd da i'w ymchwil.
- Datblygu a rheoli perthnasoedd gydag ystod amrywiol o unigolion, asiantaethau cymorth a rhanddeiliaid eraill, casglu adborth a chyfleu eu hanghenion i gydweithwyr yn TAA, er mwyn helpu i lywio'r broses o ddatblygu gwasanaethau ac adnoddau'n barhaus.
- Darparu hyfforddiant, digwyddiadau, cefnogaeth grŵp, atebion, adrodd, cynigion prosiect, fframweithiau ac ymgynghoriaeth i ddefnyddwyr newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.
- Cymryd agwedd weithredol tuag at gyfathrebu a datblygu cynnwys ar gyfer Cymru, gan gynnwys erthyglau ac astudiaethau achos ar gyfer Hwb Tystiolaeth gwefan TAA,

rheoli grŵp Cymru o fewn y llwyfan cymunedol ar-lein a chreu cylchlythyr chwarterol i Gymru

- Goruchwylio cydymffurfiaeth TAA â Safonau'r Gymraeg i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg i'r sector o ansawdd rhagorol a chyson, gan gynnwys rheoli'r berthynas â gwasanaethau cyfieithu.
- Darparu gwybodaeth / mewnwelediad i gydweithwyr, gan gyfrannu at wasanaeth cydgysylltiedig rhwng timau, creu cyfleoedd i gefnogi gwerthiant.

Cyffredinol

- Cadw golwg ar dueddiadau a newidiadau yn y sector drwy ddatblygiad proffesiynol a phersonol cyson.
- Modelu arfer gorau o ran amrywiaeth a chynhwysiant.
- Modelu gwerthoedd The Audience Agency ym mhob gwaith gyda chydweithwyr a chleientiaid.

Manyleb y Person

Gwybodaeth a Phrofiad

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar sector diwylliannol Cymru.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth weithredol o lwyfan ac adnoddau Audience Answers
- Profiad a dealltwriaeth o ddarparu rhaglenni neu brosiectau sy'n cael effaith fawr
- Dealltwriaeth o arfer da o ran ymgysylltu â'r gynulleidfa, datblygu, a marchnata
- Deall methodolegau ac arferion ymchwil defnyddwyr

Sgiliau a Phriodoleddau

- Hyfedredd yn y Gymraeg.
- Y gallu i ddeall anghenion cleientiaid a datblygu a darparu atebion priodol, gan ddefnyddio ystod o adnoddau.
- Y gallu i ddefnyddio a deall data, gwybodaeth a chanfyddiadau ymchwil ar lefel dactegol a strategol.
- Sgiliau amlwg wrth ddatblygu perthnasoedd a phartneriaethau.

- Sgiliau sefydliadol ac arweinyddiaeth eithriadol
- Sgiliau amlwg ym maes cyfathrebu ysgrifenedig gan gynnwys ysgrifennu adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau a naratif clir a hygyrch.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol gyda'r gallu i ysgogi ac ysbrydoli eraill o fewn a thu allan i'r sefydliad.
- Y gallu i ddylanwadu ar ystod amrywiol o randdeiliaid a chleientiaid ac ymgysylltu'n effeithiol â nhw.
- Sgiliau hwyluso cryf.
- Sgiliau meddwl beirniadol a'r gallu i ddatblygu a chyflwyno cynigion rhesymegol.
- Y gallu i ganfod cyfleoedd busnes, a diddordeb ynddynt.
- Y gallu i weithio ar eich menter eich hun yn ogystal ag fel aelod o dîm.
- Sylw manwl i fanylion a gallu trefnu a blaenoriaethu llwyth gwaith cymhleth
- Eisoes wedi dangos y gallu i gyflawni ar amser, yn unol â'r gyllideb ac i safon uchel.

Rhinweddau Personol

- Gallu dangos dull cydweithredol o weithio sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad – yn enwedig ar draws tîm.
- Hunan-gymhellol, chwilfrydig ac yn gallu gweithredu ar eich liwt eich hun
- Y gallu i ddangos sgiliau gwrando gweithredol a lefel o hunan ymwybyddiaeth,
- Parodrwydd i barhau â datblygiad proffesiynol a phersonol.
- Diddordeb amlwg yng ngwaith a chenhadaeth The Audience Agency a gallu dangos gwerthoedd yn eich ffordd eich hun o weithio.

Telerau ac Amodau Cyflogaeth

Contract

Cynigir y swydd ar gontract tymor penodol 7 – 9 mis.

Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau gan gontractwyr llawrydd.

Cyflog

Cynigir y swydd ar gyfradd sy'n cyfateb i gyflog blynyddol o £33,000.

Lleoliad

Mae hon rôl o bell a gall deilydd y swydd fod wedi'i leoli yn unrhyw le yn y DU.

Oriau

Yn cyfateb i o leiaf 3-4 diwrnod yr wythnos, ond gallwn fod yn hyblyg ynglŷn â nifer yr oriau a'r trefniadau gweithio.

Gwyliau

Yr hawl i wyliau yw 25 diwrnod y flwyddyn, pro rata. Mae gwyliau cyhoeddus/banc yn ychwanegol at hawl i wyliau personol.

Pensiwn

Mae gan The Audience Agency gynllun pensiwn yn y gweithle yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol. Byddwch yn cofrestru awtomatig i'r cynllun hwn ar ôl tri mis mewn cyflogaeth. Gall gweithwyr optio allan o'r cynllun hwn os dymunir.

Proses Gais

Er mwyn gwneud cais, bydd angen:

- anfon CV ysgrifenedig gyda llythyr esboniadol byr ynghylch beth yw apêl y rôl hon i chi.
- Llenwi ffurflen Monitro Amrywiaeth (ar wahân) (i'w gweld ar ein gwefan yma).

Bydd eich cais yn cael ei adolygu ar sail pa mor dda rydych chi'n dangos eich bod yn bodloni manyleb y person ac anghenion y rôl.

Mae gennym ddiddordeb clywed gan ymgeiswyr o amrywiaeth o gefndiroedd a gydag amrywiaeth o brofiadau. Ar hyn o bryd mae mwyafrif ein sefydliad yn wyn, cisryweddol a heb fod yn anabl. Credwn y bydd ein gwaith yn gryfach gyda mwy o amrywiaeth. Croesewir ceisiadau gan y rhai sy'n dod â gwahaniaeth i'n sefydliad.

Os ydych chi eisiau trafod y rôl hon yn fanylach cyn gwneud cais, cysylltwch â nancy.sheterline@theaudienceagency.org (deilydd swydd presennol)

Dylid anfon ceisiadau i jobs@theaudienceagency.org

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 4 Ebrill 2023